Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Mercher, 15 Mawrth 2023

Lisa Evans

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda., Dydd Mawrth, 21 Mawrth 2023 am 1.30 pm i drafod y materion canlynol:

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

3. **Gwasanaeth Casglu Gwastraff (Tudalennau 3 - 8)**

4. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion (Tudalennau 9 - 12)**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

Miss Lowri Edwards
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	**Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus**
DYDDIAD:	**Mawrth 21ain 2023**
LLEOLIAD:	**Hybrid**
TEITL:	Gwasanaeth Casglu Gwastraff
PWRPAS YR ADRODDIAD:	**Adolygu casgliad y gwastraff dros gyfnod y Nadolig**
RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:	
CEFNDIR:	

Fe wnaeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ddydd Llun 30 Ionawr i gwmpasu'r wybodaeth y byddent yn gofyn amdani gan swyddogion ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Craffu i'w gynnal ynglŷn â'r Gwasanaeth casglu gwastraff. Mae dyddiad ar gyfer y cyfarfod Craffu wedi ei drefnu ar gyfer dydd Mawrth 21ain Mawrth am 1.30pm.

SEFYLLFA AR HYN O BRYD:

Mae adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn Atodiad A. Bydd swyddogion yn mynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd trwy gyfrwng cyflwyniad ac ateb unrhyw gwestiynau atodol yn ymwneud â'r gwasanaeth casglu gwastraff ar y diwrnod.

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:	**A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam** ***Crynodeb:*** **Hirdymor:** **Integreiddio:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:**

ARGYMHELLIAD:

Bod y Pwyllgor yn ystyried yr ymateb i'w adroddiad ac yn gwneud argymhellion priodol i'r Cabinet os ystyrir bod angen.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:

Adolygu'r gwasanaeth casglu gwastraff dros gyfnod y Nadolig.

Enw Cyswllt:	Lisa Evans
Swydd:	Swyddog Craffu a Safonau
Dyddiad yr Adroddiad:	Mawrth 1af 2023
Acronymau:	

Atodiad A

Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymunedau Ffyniannus – Gwasanaeth Casglu Gwastraff
Dydd Llun, Ionawr 30ain, 2023 **2.00 p.m.**

Aelodau'r Pwyllgor yn bresennol:	Eraill yn bresennol:
Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans (Cadeirydd) Y Cynghorydd Ann Bowen Morgan Y Cynghorydd Marc Davies Y Cynghorydd Meirion Davies Y Cynghorydd Rhodri Davies Y Cynghorydd Wyn Evans Y Cynghorydd Rhodri Evans Y Cynghorydd John Roberts Y Cynghorydd Chris James	Y Cynghorydd Euros Davies Y Cynghorydd Ifan Davies Y Cynghorydd Amanda Edwards Y Cynghorydd Eryl Evans Y Cynghorydd Keith Evans Y Cynghorydd Geraint Hughes Y Cynghorydd Hugh Hughes Y Cynghorydd Ceris Jones Y Cynghorydd Caryl Roberts

Fe wnaeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus gyfarfod ddydd Llun 30 Ionawr i gwmpasu'r wybodaeth y byddent yn gofyn amdani gan swyddogion ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Craffu i'w gynnal ynglŷn â'r Gwasanaeth casglu gwastraff. Mae dyddiad ar gyfer y cyfarfod Craffu wedi ei drefnu ar gyfer dydd Mawrth 21ain Mawrth am 1.30pm.

Rhannodd yr aelodau eu profiadau o broblemau gyda chasglu gwastraff dros gyfnod y Nadolig gyda gwastraff nifer o drigolion heb ei gasglu am hyd at 6 wythnos. Codwyd pryderon ganddynt mewn perthynas â'r problemau yr oedd hyn yn eu hachosi gan gynnwys, problemau storio, problemau llygod, delwedd Ceredigion gan mai dyma 'ffenestr siop' y Sir. Trafodwyd cynyddu cydnerthedd o fewn y timau, oherwydd yr effeithiau y gall tywydd garw eu cael ar y gwasanaeth.

Gofynnodd y grŵp am adroddiad llawn yn egluro pam fod y tarfu ar gasglu gwastraff yn digwydd, a'i fod yn ymddangos yn waeth eleni.

Amlinellir y prif bwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor isod:

1. **Cyffredinol**

- Pam nad yw casglu sbwriel yn flaenoriaeth?
- Anghysondeb o ran pryd mae bagiau porffor yn cael eu casglu mewn rhai ardaloedd (ee. Llanbedr Pont Steffan)?
- Mae angen i ni ganolbwyntio ar y tarfu sy'n digwydd oherwydd gwyliau banc/tywydd garw.
- Cyflwr ffyrdd, sgubion ffyrdd, dail a phridd. Nid yw ffyrdd yn cael eu glanhau cystal ag y buont. Oes rhaid i sgubion fynd i Cross Hands oherwydd gwastraff halogedig? Gall y cyfan achosi effaith ganlyniadol.
- Nid yw'r rhesymau a roddwyd, bod gyrwyr HGV yn graeanu yn y gaeaf a ddim ar gael ar gyfer lorïau gwastraff, yn dal dŵr ym mis Awst. Methwyd casgliadau gwastraff am 3 wythnos yn y cyfnod hwnnw. Pam?

- A ddylem anghofio am gasgliadau ar Ddydd Llun Gŵyl y Banc? Haws a chliriach
- Yng nghefn gwlad, yn aml dyma'r UNIG wasanaeth maent yn ei gael neu ei angen gan y Cyngor, ac nid ydynt yn ei gael, am beth maent yn talu? Pan na chaiff ei gasglu, mae lôn hir i fynd i lawr ac yn ôl, nid 3 cham ar balmant/
- Fel sir fach, gallwn a dylem fod yn fwy hyblyg
- Ble ddylai pobl gadw'r bagiau am 3/4/5 wythnos yn y dref?
- Mae'r cyhoedd yn gadarnhaol ynghylch y staff y maent yn dod ar eu traws
- Pam fod y gwastraff yn mynd i Ogledd Iwerddon ac nid Sir Gaerfyrddin?

2. Staffio

- Hoffem gael gwybodaeth am y canlynol:
- Nifer y staff; cydnerthedd y gwasanaeth.
- Tâl ac Amodau – a yw goramser wedi newid dros amser.
- Y ffordd y caiff gwyliau eu strwythuro – a yw hynny wedi newid? Mae'n ymddangos bod pobl yn cymryd gwyliau ar yr un pryd, patrwm ohono.
- Adnoddau Dynol wedi cydnabod absenoldebau? Salwch? Gofyn am graff i ddangos.

- A oes digon o staff?
- A oes gennym gyflenwad llawn o staff i redeg y fflyd?
- Pam mae staff yn cael dewis gweithio ai peidio ar wyliau banc?
- Pam mae contractau staff yn wahanol i'w gilydd?
- A oes angen i ni adolygu contractau staff?
- Nid yw'r gweithwyr yn gyfforddus nac yn hapus gyda chontractau ac felly maent yn cymryd gwyliau ac absenoldeb salwch fel dihangfa
- Ydy casglu sbwriel yn swydd llawn amser?
- Os oes amser sbâr ar ôl casglu a yw'r staff yn mudo i swyddi eraill yn yr amser hwnnw?
- A allwn ni gael mwy o staff a all helpu pan fo prinder (rhagor o bobl i gael trwydded HGV / gallu tynnu staff o feysydd Gwasanaethau eraill / Mynediad at staff banc)
-

3. Cyllideb

- A oes digon o gyllideb?
- Faint yn rhagor o lorïau a staff fyddai eu hangen i gyflawni'r swyddogaeth o gasglu sbwriel? Faint fyddai'n ei gostio?
- Beth yw'r gost fesul aelwyd yr wythnos a beth fyddai cost gwasanaeth eurog?
- Fe wnaethon nhw gau Beulah gydag arbediad amcanol o £40,000 ond wedyn roedden nhw'n danfon sbwriel i Lanbedr Pont Steffan gyda'r cerbydau'n gwneud 7-8 milltir y galwyn. A oedd unrhyw arbediad? Faint? Ydy Beulah wedi ailagor nawr?

4. Allanoli

- A ddylem edrych ar ffyrdd amgen o weithio? Allanoli? A fyddai hwn yn opsiwn rhatach?
- Rhoddwyd enghraifft o ddefnyddio contractwr preifat ar gyfer casglu masnachol, heb fethu unwaith mewn 7 mlynedd
- A ydych chi wedi archwilio'r opsiwn o gyflogi contractwyr pan fo tarfu?
- Mewn cyfnod anodd oni allwn ddefnyddio ffermwyr, mae ganddynt yr offer i gynorthwyo?

5. Fflyd/cynnal a chadw

- Faint o lorïau sbwriel sydd eu hangen i gasglu bagiau du yn ddiogel bob wythnos?
- Faint o lorïau sydd eu hangen i gasglu bagiau ailgylchu yn ddiogel bob wythnos?
- Pa ganran o gerbydau sy'n annefnyddiadwy bob wythnos?
- A oes gennym fecanyddion digonol i gadw'r lorïau'n ddefnyddiol?
- Pan fydd angen adnewyddu'r fflyd, a fyddai'n opsiwn i edrych ar gerbydau llai nad oes angen i yrwyr fod â thrwydded HGV/rhatach i'w rhedeg?
- Ar ôl bod i Lanyrafon a gweld 8 cerbyd ddim yn cael eu defnyddio, a ddylem fod yn dyblu'r sifftiau gyda'r un nifer o gerbydau?

6. Cyfathrebu

- A fyddai'n bosibl gwella cyfathrebu pan fo tarfu, mae llawer o bobl yn ansicr a ddylent adael gwastraff am y diwrnod nesaf neu gyflwyno'r wythnos ganlynol, nid oes cysondeb. Mae gan y Cyfathrebiad a anfonir at Gynghorwyr nodyn yn dweud na ddylid ei rannu.
- Nid pawb sydd ar y cyfryngau cymdeithasol
- A all y negeseuon dyddiol/ddwywaith y dydd fod yn fwy penodol h.y. bagiau du, ailgylchu, bwyd, gwydr a beth sydd heb ei gasglu?
- Mae angen casglu tystiolaeth o'r gweithlu a'r cyhoedd
- Mae datganiad i'r wasg yn bwysig

7. Safleoedd amwynder

- Pam nad yw Safleoedd Amwynder yn derbyn bagiau gwastraff pan fo problemau gyda chasglu, mae rhai trigolion yn hapus i fynd â'u bagiau yno?
- Ym Mhenparc maen nhw'n mynnu agor y bagiau du, pam? Nid oes neb am ei wneud
- A ellid gosod sgipiau yng Nglanyrafon i alluogi pobl i fynd â'u gwastraff yno os ydynt yn dymuno, pan nad yw'n cael ei gasglu?

8. Clic

- Faint o ymholiadau mewn perthynas â materion Casglu Gwastraff y mae Clic wedi'u cael yn ystod y 6 mis diwethaf?

Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans,
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

Atodiad A

Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU FFYNIANNUS
a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda. ddydd Dydd Gwener, 10 Chwefror 2023

PRESENNOL: Cynghorydd Gwyn Wigley Evans (Cadeirydd), Cynghorwyr Cynghorydd Marc Davies (Is-Gadeirydd), Cynghorydd Meirion Davies, Rhodri Davies, Gethin Davies, Rhodri Evans, Chris James, Maldwyn Lewis, Sian Maehrlein, John Roberts, Carl Worrall a Ann Bowen Morgan

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Cynghorydd Bryan Davies, Cynghorydd Clive Davies, Cynghorydd Euros Davies, Cynghorydd Gareth Davies, Cynghorydd Eryl Evans, Cynghorydd Keith Evans, Cynghorydd Keith Henson, Cynghorydd Wyn Thomas, Cynghorydd Matthew Vaux, Cynghorydd Alun Williams, Catrin MS Davies, Elizabeth Evans, Amanda Edwards, Wyn Evans, Hugh Hughes, a Ceris Jones

SWYDDOGION YN BRESENNOL: Lowri Edwards, Duncan Hall, Elin Prysor, Rhodri Llwyd, Russell Hughes Pickering, Eifion Evans, Barry Rees, James Starbuck, and Lisa Evans

(9.30 am - 12.25 pm)

1 Ymddiheuriadau
Dim

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.
Datgelodd y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans fuddiant personol mewn perthynas ag Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.

3 Adroddiad ar y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2023/24
Gwnaeth Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus gyfarfod i ystyried Cyllideb y Gwasanaeth ar gyfer y meysydd gwasanaeth hynny sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor ac i ystyried yr argymhellion canlynol:

-

1. Ystyried sefyllfa gyffredinol y Gyllideb fel y'i dangosir yn yr adroddiad ar y Gyllideb ym Mhapur A.
2. Ystyried elfennau perthnasol pwysau Costau'r Gyllideb, sef cyfanswm o £22.2m ar draws yr holl Wasanaethau.
3. Ystyried elfennau perthnasol y cynigion ar gyfer Arbedion yn y Gyllideb, sef cyfanswm o £8.9m ar draws yr holl Wasanaethau.

4. Ystyried elfennau perthnasol cynigion y Ffioedd a chostau.
5. Ystyried y 4 opsiwn a amlinellwyd yn Argymhelliad 3a) i d) adroddiad Cabinet 24/01/23, sef:
    - 3a) Cynnydd o 6.3% yn Nhreth y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb o £179.627m ar gyfer 23/24, a fyddai'n darparu cyfraniad is tuag at Bwysau Costau Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig.
    - 3b) Cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb 23/24 o £180.101m.
    - 3c) Cynnydd o 8.3% yn Nhreth y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb 23/24 o £180.576m, i roi cyfraniad uwch tuag at Bwysau Costau Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig.
    - 3d) Cynnig opsiwn arall yn ychwanegol at Argymhellion 3a) i 3c) i roi cynnydd penodol at ddiben penodol, ar yr amod bod unrhyw opsiwn yn cael ei ystyried yn ystod cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb a bod swyddog Adran 151 yn cael digon o amser ymlaen llaw i fodelu'r effaith yn llawn ac i roi barn ar ei gadernid.
6. Rhoi unrhyw adborth priodol arall ar Gyllideb Ddrafft 23/24 i'r Cabinet.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan Arweinydd y Cyngor (y Cynghorydd Bryan Davies), Aelod y Cabinet dros Gyllid a Chaffael (y Cynghorydd Gareth Davies) a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (Duncan Hall). Yna cyflwynodd Aelod perthnasol y Cabinet eitemau'r Gyllideb sy'n berthnasol i'w Faes Gwasanaeth. Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb yn eu tro gan Aelodau'r Cabinet a/neu Uwch Swyddogion.

Argymhellion:

Cytunodd y Pwyllgor:

1. Ei fod wedi ystyried sefyllfa gyffredinol y Gyllideb fel y'i dangosir yn yr adroddiad ar y Gyllideb ym Mhapur A.
2. Ei fod wedi ystyried elfennau perthnasol pwysau Costau'r Gyllideb sy'n dod o dan y Pwyllgor Craffu hwn.
3. Ei fod wedi ystyried elfennau perthnasol y cynigion ar gyfer Arbedion yn y Gyllideb sy'n dod o dan y Pwyllgor Craffu hwn.
4. Ei fod wedi ystyried elfennau perthnasol cynigion y Ffioedd a Chostau sy'n dod o dan y Pwyllgor Craffu hwn, ac eithrio bod y Pwyllgor Craffu yn argymell i'r Cabinet bod Ffioedd a Chostau arfaethedig y Meysydd Parcio yn Nhregaron a Llandysul yn cael eu dileu, fel na fyddai dim costau am Barcio Ceir yn parhau yn y trefi hynny o 01/04/23 ac y dylai'r gost bosibl o £40,000 sy'n gysylltiedig â hyn gael ei hariannu o'r Ddarpariaeth o £400k a neilltuwyd ar gyfer risgiau o ran Chwyddiant Cyflogau ac Ynni.

5. Pleidleisiodd y mwyafrif o Aelodau'r Pwyllgor o blaid cynnydd o 7.3% yn lefelau Treth y Cyngor. Mae'r Pwyllgor felly yn argymell cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2023/2024, sef opsiwn 3b) yr argymhellion, fel a ganlyn:
    3b) Cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb 23/24 o £180.101m).
6. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn rhoi'r eitem ganlynol ar flaenraglen waith y Pwyllgor: Ystyried yr opsiwn o ganiatáu 2 awr o barcio am ddim cyn 11am.

4 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion

CYTUNWYD bod cofnodion y pwyllgor a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr yn rhai cywir.

Materion yn codi
Dim

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar Dydd Mawrth, 21 Mawrth 2023

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol